No 9 Hydref 2025

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Grant Arloesi Llywodraeth Cymru

Cylllid i helpu mudiadau i weithio gyda'i gilydd i wella cyfathrebu, cydweithio, mabwysiadu dulliau arloesol o fynd ir afael ag anghydraddoldeb a chynhwysiant ar y lefel ranbarthol, leol neu gymunedol. Gwertth: £40,000 - £200,000

## Sefydliad Motability
## Gwell Mynediad at Deithio Llesol
## Profiadau ac Offer

Grantiau yn amrywio o £50,000 i £1 miliwn dros hyd at dair blynedd ar gael i wella opsiynau teithio llesol i bobl anabl. Gall cyllid helpu prosiectau sydd ag effaith syth neu hirdymor yn cynnwys llogi offer, rhaglenni grant, gwasanaethau cefnogi, hyfforddiant a chynlluniau peilot i brofi modelau neu ddatrysiadau newydd

## Cronfa'r Teulu

Mae Cronfa'r Teulu yn cynnig ystod eang o grantiau i deuluoedd sy'n byw yng Nghymru ac yn magu plentyn neu oedolyn ifanc anabl neu ddifrifol wael, ar incwm isel.

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae'r Cynllun hwn (LDTCS) yn ariannu prosiectau ger rhai gorsafoedd trosglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi, gyda sylw ar:

- fioamrywiaeth
- lleihau gwastraff a faint sy'n mynd i'w dirlenwi,
- a gwelliannau ehangach i'r amgylchedd.

Mae'r cynllun ar agor bellach i geisiadau am grantiau o rhwng £5,000 - £49,000.

## Meithrin Natur

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Nod Meithrin Natur yw gwella iechyd a lles plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yng Nghymru. Mae'n gwahodd prosiectau sy'n cysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol, gan gynnig profiadau cadarnhaol mewn natur a chymorth i gyrraedd, mwynhau a gofalu am ofod yn yr awyr agored. Rhaid gwneud ceisiadau mewn partneriaethau, a dwyn ynghyd arbenigedd o fudiadau y sector gwirfoddol, cymunedol, cyhoeddus a phreifat.

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cyfleoedd Rhanbarthol

### Cydlyniant Cymunedol Bae Gorllewinol

### Cronfa Grantiau Bach 2025/26 Cam 2

Mae'r Gronfa Bae Gorllewinol yn cynnig cymorth cyllid i fudiadau tuag at gyflawni eu deilliannau o greu cymunedau cydlynol. Cydlyniant cymunedol yw'r broses angenrheidiol i sicrhau bod grwpiau gwahanol o bobl yn gyrru ymlaen yn dda gyda'i gilydd yn yr ardal. Gall gefnogi prosiectau sy'n bodloni un o'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

Cyflwyno digwyddiadau neu weithgareddau sy'n dwyn ynghyd pobl â Nodweddion Gwarchodedig lleiafrifol a rhai o'r mwyafrif, i gynyddu cyswllt cymdeithasol a meithrin perthynas dda. Dylai'r cynigion ystyried sut gall y prosiectau gefnogi integreiddio, taclo unigrwydd, neu fynd i'r afael ag arwahanu. Dylai'r prosiectau geisio adnabod pethau cyffredin, drwy ddiddordebau, profiadau neu werthoedd tebyg.

Cyflwyno gweithgareddau sy'n ceisio lliniaru neu gael gwared ar densiynau cymunedol sy'n deillio o gamsyniadau neu stereoteipiau am gymunedau lleiafrifol.

Gall mudiadau ofyn am hyd at £2000 o gyllid.

## Cronfa Community Matters

Y gaeaf hwn mae busnes Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol a Localgiving yn dod ynghyd unwaith eto i roi grantiau i fudiadau elusennol sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a sicrhau fforddiadwyedd ynni yn eu cymunedau.

## Cronfa Amrywiaeth Ymgeiswyr Etholiad

Mae £200,000 y flwyddyn ar gael i gefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad yng Nghymru. Ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddylai gael budd o'r cyllid.

Ein nod yw cyllido amrywiaeth o sefydliadau er mwyn sicrhau bod modd cyrraedd pob grŵp.

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio cyllid yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol. Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**

## Cronfa Lleoedd Cynnes Cymunedol

Cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu ei chyllid Lleoedd Cynnes ar draws ardaloedd lleol er mwyn cefnogi mentrau cymunedol yn ystod y misoedd oer. Bydd yr arian hwn ar gael yn fuan trwy eich Awdurdod Lleol neu eich Cyngor Gwirfoddol Sirol.